



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Lynvor

Ynys Môn

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/05/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Lynvor

| | |
|---|--|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited. |
| Lleodd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Mehefin 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y gwasanaeth, ac yn canmol y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae anghenion gofal a chymorth pob unigolyn yn hysbys ac wedi'u nodi yn eu cynlluniau personol. Darperir y gofal a'r cymorth cywir er mwyn galluogi'r bobl i gyrraedd eu canlyniadau unigol ac i hyrwyddo ymdeimlad cadarnhaol o lesiant. Mae gan y bobl ddewisiadau yn eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau. Cânt eu hannog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau yn y gymuned. Caiff asesiadau risg eu defnyddio mewn ffordd gadarnhaol er mwyn galluogi'r bobl i roi cynnig ar wahanol weithgareddau.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Caiff gwiriadau addasrwydd eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth, maent yn cwblhau cyfnod sefydlu ac yn cael yr hyfforddiant priodol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei fonitro'n gyson ac mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn gyfforddus, ac yn addas ar gyfer anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd eu hunain yn unol â'u chwaeth. Mae mesurau iechyd a diogelwch ar waith, ond ni chaiff y camau eu gweithredu yn gyflym pan fydd materion yn codi. Mae hyn yn peri risg o niwed i'r bobl, ac felly mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith.

Llesiant

Mae'r bobl yn hapus am eu bod yn gallu gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Gwelsom y bobl yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau yn y gymuned. Caiff gweithgareddau cymdeithasol unigol a grŵp eu hwyluso. Mae hyn yn galluogi'r bobl gynnal perthynas gyda'u ffrindiau ac i wneud rhai newydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau gwirfoddoli am ei fod yn rhoi'r cyfle iddynt gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymuned a'i fod yn gyfle rheolaidd i ryngweithio'n gymdeithasol.

Mae gan y bobl reolaeth dros eu harferion o ddydd i ddydd. Maent yn cael eu cynnwys wrth greu eu cynlluniau personol eu hunain a chaiff cofnod ei gadw o'u barn a'u dymuniadau. Cânt eu hannog i osod nodau, a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwirio bod y bobl yn cael y gofal cywir i'w cefnogi i gyflawni'r nodau hyn. Mae cyflawni nodau yn cael ei ddathlu, sy'n rhoi gwir ymdeimlad o gyflawniad i'r bobl. Gall y gweithwyr gofal gael gafael ar gynlluniau personol y bobl ac maent yn gyfarwydd â hoff ffyrdd y bobl o dderbyn cymorth. Mae hyn yn galluogi'r bobl i gael parhad yn y gofal y maent yn eu cael. Caiff y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod, beth yr hoffent ei fwyta, yn ogystal â'u trefn o ddydd i ddydd. Caiff eu safbwyntiau am y gwasanaeth a ddarperir iddynt eu casglu'n rheolaidd, a gwrandewir arnynt. Caiff eiriolwr ei drefnu ar gyfer y bobl a fyddai'n cael budd o gael cymorth annibynnol i fynegi eu safbwyntiau a'u barn. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym *"Individuals are at the heart of everything we do"*.

Caiff cydberthnasau diogel ac iach eu hyrwyddo. Mae'r bobl yn dod ymlaen ag eraill sy'n byw yn y gwasanaeth, ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol gyda'r gweithwyr gofal a'r rheolwr. Gwelsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn modd caredig, parchus a gofalgar, yn eu dewis iaith. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith a gwnaethant ddweud y canlynol wrthym: *"Great atmosphere", "tîm da o staff", "The team is proactive and keen to deliver the best service to the people we support"*.

Gall y bobl gyfrannu at eu cymuned mewn amrywiaeth o ffyrdd. Caiff asesiadau risg eu defnyddio er mwyn galluogi'r bobl i gymryd rhan yn ddiogel mewn digwyddiadau cymdeithasol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fynd i siopa, i wirfoddoli, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, cymryd rhan mewn chwaraeon (gan gynnwys chwaraeon tîm), a mynd i ddatliadau cymdeithasol. Gwelsom luniau o'r bobl yn mwynhau eu hunain wrth gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn. Darperir cymorth iddynt fynd ar wyliau ac i ymweld â lleoedd o ddiddordeb.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn lân, yn gyfforddus ac yn addas ar gyfer anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Ni chaiff iechyd a diogelwch y bobl eu hamddiffyn bob amser, ac mae angen cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â maes hwn o'r gwasanaeth.

Gofal a Chymorth

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn hysbys cyn iddynt symud i mewn i'r gwasanaeth. Gwelsom ymdrechion i gasglu gwybodaeth am y cymorth sydd ei angen ar y bobl a pha ganlyniadau y byddant yn hoffi eu cyflawni. Caiff gwybodaeth ei chasglu gan bob unigolyn, gan y teuluoedd, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn dogfen cyn derbyn a'i defnyddio gan y rheolwr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer pob unigolyn. Rhoddir gwybod i'r comisiynwyr pan fydd newidiadau sylweddol i amgylchiadau'r bobl a allai effeithio ar eu gallu i gyflawni eu canlyniadau personol.

Darperir y gofal a'r cymorth priodol er mwyn diwallu anghenion unigol pob unigolyn ac er mwyn cyflawni eu canlyniadau dymunol. Mae'r dogfennau'n dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys, gymaint ag sydd bosibl, mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â sut y dymunant gael eu cefnogi a pha ganlyniadau yr hoffent eu cyflawni. Mae'r hyn sy'n bwysig i'r bobl ynghyd â'u hoff ddulliau o gyfathrebu wedi eu cofnodi mewn cynlluniau personol unigol manwl. Caiff gwybodaeth am sut i osgoi a lleihau 'ysgogiadau' hysbys ei chofnodi, yn ogystal â sut y dylai'r gweithwyr gofal gefnogi pob unigolyn pan fyddant yn ymateb mewn ffordd gynhyrfus. Mae hyn yn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn darparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir i bob unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn disgrifio'r gofal maent yn ei gael fel *“good”* ac *“excellent”*.

Mae trefniadau ar waith i helpu'r bobl i gadw'n iach. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi cyflyrau meddygol unigol y bobl a sut y cânt eu rheoli. Mae'r cofnodion yn dangos y rhoddir meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, a darperir cymorth i fynd i apwyntiadau meddygol. Caiff arweiniad ei geisio gan weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol pan fydd anghenion y bobl yn newid, ac mae'r cyngor sy'n cael ei dderbyn yn cael ei gofnodi yn ffeiliau'r bobl. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i gadw'n heini i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol fel nofio a cherdded. Mae deiet iach yn cael ei annog, a chaiff pwysau'r bobl ei fonitro.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn hyderus ynghylch y camau y dylent eu cymryd os bydd ganddynt unrhyw bryderon am les y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod am faterion diogelu yn briodol i'r Awdurdod Lleol a rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) hefyd. Mae awdurdodiadau cyfreithiol cywir ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau sy'n cael eu gosod ar ryddid y bobl yn cael eu gwneud er budd gorau'r unigolyn.

Yr Amgylchedd

Darperir cymorth mewn amgylchedd cartrefol a glân. Gofynnwyd i ni ddangos prawf adnabod cyn bod modd i ni ddod i mewn i'r cartref. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu rhag unigolion awdurdodedig yn dod i mewn i'r gwasanaeth. Gwelsom fod lolfa ac ystafell fwyta gymunedol yn cael eu darparu, lle gall y bobl dreulio amser gydag eraill, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'r ystafelloedd hyn wedi eu haddurno gyda lluniau mewn fframiau o'r bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol gyda'i gilydd, sy'n helpu i greu ymdeimlad o berthyn yn y cartref. Maent hefyd yn arddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau sydd i ddod, y gall y bobl edrych ymlaen atynt, yn ogystal â thystysgrifau i ddathlu pan fydd y bobl wedi cyflawni rhywbeth sy'n bwysig iddynt.

Mae gan bob unigolyn ystafell wely ei hun sydd wedi cael ei addurno at chwaeth yr unigolyn. Caiff diddordebau a hobiau'r bobl eu hadlewyrchu drwy'r eitemau sydd ganddynt yn eu hystafelloedd eu hunain, sy'n helpu'r unigolion i deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Mae cyfleusterau ensuite mewn tair o'r pedair ystafell wely. Mae'r ystafell feddyginiaeth a swyddfa'r rheolwr mewn ardaloedd ar wahân yn y tŷ, fel nad ydynt yn effeithio ar ymdeimlad cartrefol y gwasanaeth. Mae cegin gymunedol ar gael y gall y bobl ei defnyddio i baratoi eu prydau eu hunain, gyda chymorth os byddant ei angen.

Mae systemau ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn y cartref, ond nid yw'r camau'n cael eu cymryd yn gyflym pan fydd meysydd yn cael eu nodi i ailosod neu atgyweirio. Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r rheolaeth o iechyd a diogelwch yn y cartref. Gwelsom fod y profion system larwm tân yn cael eu profi a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Mae gan bob person gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith, sy'n cofnodi'r cymorth sydd ei angen arno i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r cofnodion hefyd yn dangos bod yr offer nwy a thrydan yn cael eu gwasanaethu'n barhaus. Gwelsom y rheolwr yn adrodd yn gyflym am faterion yn yr amgylchedd sy'n gofyn am sylw yn adran rheolaeth y darparwr. Fodd bynnag, roedd oedi sylweddol yn digwydd yn dilyn cael gwybod am y meysydd hyn, ac ni chafodd camau eu cymryd mewn modd amserol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a chânt hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu ac yn gweithio shifftiau cysgodi ynghyd â gweithwyr gofal eraill pan fyddant yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Caiff hyfforddiant gorfodol ei ddarparu, a hyfforddiant arbenigol sy'n ymwneud ag anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r hyfforddiant a ddarperir yn cael ei ddisgrifio fel "good" ac "excellent" gan y gweithwyr gofal. Mae'r cofnodion yn dangos y cynhelir sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd a dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael budd o'r sesiynau hyn. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith, ei fod yn "*Lle braf i weithio*", a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a'u cefnogi'n dda yn eu rolau. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym "*The manager shows genuine interest in my support*".

Mae gwybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth ar gael i'r bobl. Mae datganiad o ddiben cyfredol ar gael sy'n disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth hefyd ar gael, wedi'i ysgrifennu mewn fformat hawdd ei ddarllen, sy'n galluogi'r bobl i wneud penderfyniad hyddysg mewn perthynas â defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am sut i godi cwyn.

Mae prosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref bob tri mis, fel sy'n ofynnol, er mwyn asesu sut mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflawni. Fel rhan o'i ymweliad, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn casglu eu safbwyntiau am y cymorth y maent yn ei dderbyn. Maent hefyd yn siarad â gweithwyr gofal ac yn gwirio samplau o ddogfennaeth gofal. Caiff canlyniad ei ymweliad ei gofnodi mewn adroddiad sy'n cynnwys unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd yn dilyn ei ymweliad. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda iawn gan yr Unigolyn Cyfrifol.

Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Mae'r adroddiadau yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn gwirio a yw'r gwasanaeth yn rhedeg fel y dylai a'i fod yn unol â'r Datganiad o Ddiben, yn ystod ei ymweliadau rheolaidd. Bydd adolygiadau o ansawdd yn cael eu cynnwys bob chwe mis, sy'n cynnwys safbwyntiau'r bobl a'u teuluoedd. Mae'r adolygiadau yn ystyried yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, gan fyfyrto ar sut y mae'r gwasanaeth yn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau

dymunol. Maent hefyd yn nodi meysydd o'r gwasanaeth y byddant eisiau datblygu ymhellach er budd y bobl sy'n byw yn y cartref.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

| Statws | Ystyr pob un |
|---------------------|---|
| Newydd | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| Adolygwyd | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| Heb Gyflawni | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| Cyflawnwyd | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|----------|--|--------|
| 57 | Ni chaiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Sicrhau y caiff camau eu cymryd, yn ddi-oed, pan fydd meysydd yn yr amgylchedd yn cael eu nodi fel rhai sydd angen sylw. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|-----------------------------------|---|--------|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 27/06/2024